

TROSOLWG O'R CWRS

I ennill yr MA a'r arbenigedd hwn bydd angen cwblhau chwech modiwl wedi eu haddysgu ynghyd â thraethawd hir 15,000 o eiriau. Mae'n bosib l orffen y cwrs ar ôl blwyddyn a derbyn Tystysgrif ôl-radd, neu ar ôl dwy flynedd i dderbyn Diploma ôl-radd.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn Tri
Dulliau Ymchwil ar gyfer Myfyrio Diwinyddol Diwinyddiaeth ac Ysbrydolrwydd Plant	Prosiect Dysgu Annibynnol Ymarfer Gyfoes yng ngwaith cenhadaeth i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Arewinyddiaeth o bersbectif Beiblaidd a Chyfoes	Traethawd hir 15,000 o eiriau

Siaradwyr Gwadd diweddar yn cynnwys:

David Csinos, Carolyn Edwards, Howard Worsley, Irene Smale, Ann Casson, Esther Zimmerman.

FFIOEDD

Mae'r MA yn gymwys ar gyfer benthyciad myfyriwr os nad oes gennych benthyciad blaenorol am astudiaethau ar y lefel hwn. Am fwy o wybodaeth ewch at: <https://www.studentfinancewales.co.uk/postgraduate-students/postgraduate-master-s-finance.aspx> neu <https://www.gov.uk/funding-for-postgraduate-study>

DYDDIADAU

Hydref 2024	Gaeaf 2025	Gwanwyn 2025	Alumni 2025
15 i 18 Medi	12 to 15 Ionawr	23 to 26 Mawrth	16 i 17 Mehefin

www.stpadarns.ac.uk/cy/MAPoblIfanc

Mewn partneriaeth â Durham University Common Awards

AM FWY O FANYLION

Cyslltwch Tina Franklin, Cydlynnydd Rhaglenni Ôl-radd

ar tina.franklin@stpadarns.ac.uk or 02920 838009

St Padarn's Institute, 54 Cardff Road, Cardiff, CF5 2YJ

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Rhif elusen: 1142813



MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth

I ARBENIGWYR PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD 2024-25

"Mae'n bosib mai MA Athrofa Padarn Sant i Arbenigwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yw un o'r rhaglenni gorau o'i math yn y DU- gellir hyd yn oed dadlau ei fod llawn cystal ag unrhyw rhaglen arall yn y byd!"

Adroddiad Arolwg Allanol Rheolaidd

ATHROFA PADARN SANT

Athrofa Padarn Sant yw cangen hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru, ac o dan ei datganiad *ffurfiant mewn cymuned ar gyfer cenhadaeth* mae'n ceisio chwarae ei rhan i baratoi a grymuso pobl Duw ym mhob cymuned i gyfleu cariad gweddnewidiol Duw.



Y TÎM ADDYSGU

Y Parchedig Athro Jeremy Duff yw Prifathro Athrofa Padarn Sant. Mae'n angerddol ynglŷn â ffurfiant a chenhadu. Mae'n arbenigo yn Astudiaethau'r Testament Newydd a Datblygu Arweinyddiaeth. Tan yn ddiweddar, bu'n ficer cymuned trefol ger Lerpwl.

Mae'r Parchedig Ddr Mark Griffiths yn aelod o'r tîm ym Mhadarn Sant a chyfrifoddeb dros meithrin Disgyblion, Gweinidogion Trwyddedig Newydd a Datblygiad Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Bu'n bennaeth Gweinidogaeth Teulu I New Wine am 13 mlynedd ac wedi gweithio I amryw eglwys ac amryw swyddi yn ymwneud a gweinidogaeth plant a bobl ifanc. Maei ei ddoethur mewn twf eglwysi a efengylaeth plant.

Mae'r **Parchedig Ddr Jordan Hillebert** yn Gyfarwyddwr Ffuriant ym Mhadarn Sant. Gwnaeth PhD yn yr Alban (Prifysgol St Andrews), ac mae ar hyn o bryd yn Diwtor mewn Diwinyddiaeth yn yr Athrofa. Ei bynciau arbenigol yw dysgeidiaeth a moeseg Gristnogol.

Mae Dr George Lings yn gyn Gyfarwyddwr Ymchwil i Church Army ac yn gyd-awdur yr adroddiad Mission Shaped Church ynghyd ac awdur nifer o lyfrau /adroddiadau eraill ar Llan Lanast a Ffuriau Newydd o gyflwyno Eglwys. Mae ganddo flynyddoedd helaeth o brofiad o fyfrio diwinyddol i gyfrannu at ei ddysgu.

Mae Lisa Lyall yn weithiwr arloesol ym maes Gweinidogaeth Plant yn y Ddeyrnas Unedig. Fe ddechreuodd ei gyrfa fel Bugail Plant 25 mlynedd yn ôl yn ei heglwys lleol yn Fraserburgh ac mae hi wedi lawnsio nifer o fentrau ac adeiladu tîm helaeth o arweinwyr. Fe arweiniodd weinidogaethau plant yn un o'r enwadau Pentecostaidd am ddegawd ac maen parhau i siarad mewn cynadleddau, galluogi a hyfforddi gweithwyr yn y maes.

Mae **Lucy Moore** yn gweithio i BRF fel Arweinydd tîm Llan Lanast. Mae'n gyfrifol am ddatblygu gwaith Llan Lanast yn genedlaethol ac yn rhyngwladol — gan ysgrifennu, siarad, myfrio a datblygu'r prosiectau. Mae'n gweithio i Growing Faith sydd a'r nod o sicrhau bod plant a bobl ifanc yn ganolog I genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys.

Mae **Yvonne Morris** yn awdur ac yn Ymgynghorydd Plant i esgobaeth Rhydychen, yn cefnogi a hyfforddi eglwysi a'u gweithwyr ym maes gweinidogaeth plant. Mae Yvonne dal i weinidogaethu yn lleol yn eglwysi Sant Mathew a Sant Luc yn Rhydychen.

Parch Ddr Sally Nash - Mae Sally yn Gymrawd Ymchwil Uwch yn Athrofa Padarn Sant ac fe ddaw a phrofiad helaeth i'r cwrs, gan gynnwys 20 mlynedd yn gweithio mewn addysg ddiwinyddol a chyn hynny 15 mlynedd mewn swyddi hyfforddi gyda 'Youth for Christ'. Mae hi wedi cyhoeddi mewn sawl maes megis, cenhadaeth, gweinidogaeth ac mae nifer o'i llyfrau yn rhan o'n deunydd darllen craidd. Mae ei Doethuriaeth ddiweddaraf yn trafod cywilydd yn yr eglwys a'i doethuriaeth flaenorol yn trafod gwaith gyda phobl ifanc mewn ardaloedd trefol. Mae'n parhau i ymchwilio a chyhoeddi'n helaeth.

Rick Otto Mae Rick yn Ymgynghorydd Plant Esgobaethol I Esgobaeth Manceinion, ac yn gyn pennaeth gweinidogaeth plant theuluoedd i Ymddiriedolaeth New Wine. Mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc a theuluoedd mewn nifer o gyd-destunau eglwysig.

Matt Summerfield yw Bugail Uwch Eglwys Zeo. O 2000 i 2018 fe oedd y Prif Weithredwr ac yn fwy diweddar fe ddaeth yn Lywydd ar y sefydliad cenhadaeth plant a phobl ifanc Urban Saints. Mae'n frwd dros ysgogi potensial ym mhobl, timoedd, a sefydliadau gyda ffocws penodol ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw antur mawr Duw fel rhan o'u bywydau.

Gary Smith ddatblygodd Bugeiliaid Stryd Caerdydd sy'n trefnu bod Cristnogion wedi eu hyfforddi ar gael fel Bugeiliaid Stryd ar strydoedd Caerdydd ar benwythnosau. Yn Medi 2015 fe lawnsiwyd Ignite gyda'r Message Trust ac fe ddaeth Gary yn Gyfarwyddwr Hybiau yn goruchwyllo gweithwyr yn yr Alban, Cymru a'r Canolbarth. Ei brif ffocws yw Datblygu Arweinyddiaeth.

Rachel Turner oedd Arloeswr Parenting for Faith ac Arloeswr y Bible Reading Fellowship. Bu'n gweithio mewn eglwysi am dros 12 mlynedd fel Bugail Bywyd Teuluol a Phobl ifanc. Mae'n parhau i ymgynghori, siarad mewn cynadleddau a chynnal diwrnodau hyfforddiant i rieni ac arweinwyr eglwysi ar draws y DU. Mae hefyd yn awdur sawl llyfr a chwrs Parenting for Faith.

SUT GYFLWYNIR Y CWRS

Cyfnodau Preswyl Dwys Dydd Llun i Mercher

Caiff y dysgu ar gyfer y rhaglen ei gyflwyno mewn tair bloc dwys y flwyddyn (Llun i Gwener) dros ddwy flynedd. Mae wedi ei gynllunio yn benodol I gwrdd ag anghenion y rheiny sy'n gweithio gyda pobl ifanc, plant a theuluoedd. O fewn y rhaglen safonol, bydd myfywyr yn astudio tair modiwl y flwyddyn am dwy flynedd, wedi ei ddilyn gan blwyddyn o ysgrifennu traethawd hir. cYnhelir cyfnodau preswyl ar ein safle yng Nghaerdydd, lle mai llety pwrpasol en-suite, arlwy, ystafelloed dysgu, ystafell gyffredin a chapel. Mae'n bosib, ac fe argymhellir I fyfyrwyr gyrraedd ar nos Sul er mwyn rhoi fwy o amser iddyn nhw gael myneidat at diwtoriaid a'r llyfrgell. Nid oes cost ychwanegol am gyrraedd ar nos Sul.

Amserlen Enghreifftiol ar gyfer Cyfnodau Preswyl Dwys

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher
8:15am	Rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cyrraedd nos Sul	Brecwast	
9:00am		Astudiaethau Personol	Darlith (6)
10:30am		Egwyl Te a Choffi	
11:00am		Darlith (3)	Darlith (7)
12:30pm	Cinio		
1.30pm	Addoliad	Amser Rhydd	Amser Rhydd
2.00pm	Guest Lecture (1)	Lecture (4)	
	EgwylTe a Choffi		
3:30pm	Darlith (2)	Darlith (5)	
5:00pm	Amser Rhydd		
6:00pm	Swper		
7:00pm	Darlith Siaradwr Gwadd	Amser Rhydd	

BLAENORIAETHU PROFIAID

Ein nod yw i rhoi sylfaen diwinyddol i ymarferwyr er mwyn iddyn nhw datblygu eu ymarfer, ac rydym yn gwerthfawrogi profiad uwchlaw dysgu academiaidd blaenorol. Os nad oes gennych radd, ond mae gennych brofiad ym maes plant, pobl ifanc a theuluoedd byddwn yn awyddus i dderbyn caas gennych.

Y BROSES YMGEISIO

Mae'r gradd Meistr hwn yn gael ei achredu gan Brifysgol Durham ac mae'r MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Mae'r cwrs yh arbenigedd o fewn y cwrs hwnnw, ac wedi ei gynllunio yn benodol I weithwyr plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae gan brifysgol Durham enw da yn rhyngwladol ac mae'n rhan o'r grŵp Russell o brifysgolion. Nid yw brys munud olaf yn dda i unrhyw un, felly cysylltwch gyda ni i drafod eich cais.

